# Y dis sy’n dewis

## Tebygolrwydd

| | |
|---|---|
| AMELIA | Reit ‘ta, pwy sy’n gwneud paned heddiw? Rhifau arferol? 1, 2, 3, 4, 5 a 6. |
| GARETH | O, dim eto… fi sy’n gwneud bob tro! Mae’r dis yma’n dangos tuedd a dw i’n mynd i brofi’r peth.<br><br>Edrycha, mewn 10 diwrnod, dw i wedi gwneud y te 4 gwaith, 40% o weithiau, sydd tipyn yn fwy nag 1 rhan o 6! Iawn, ocê Nigel, cyfrannedd o 0.4. |
| AMELIA | O, paid poeni Gareth. Gawn ni weld sut mae pethau ar ôl mis.<br><br>Efallai dy fod ti’n iawn Gareth. Efallai ein bod ni angen dis newydd, un tecach. |
| GARETH | Rho amser iddi.<br><br>Dw i’n credu bod y dis yma wedi ei bwysoli, mae’n dangos tueddiad. Mae blwyddyn wedi pasio ac mae’r cyfraneddau yn sefydlog ers sbel.<br><br>Mae Catherine yn gwneud y te tua 50% o weithiau, neu 0.5. Mae pawb arall yn gwneud y te tua 0.1 o weithiau. 10%. |
| AMELIA | Felly sawl gwaith y mis dw i’n debygol o orfod gwneud y te? |
| GARETH | Os cymrwn ni bod 4 wythnos mewn mis, sef 20 diwrnod gwaith, lluosi hynny gyda 0.1, yna 2 waith. Ond, byddai’n rhaid i Catherine wneud y te 20 lluosi 0.5, sy’n 10 o weithiau. Dylem ni brynu dis newydd! |
| AMELIA | Wel, mi fedrwn ni, ond mae Catherine yn gwneud paned da… |
| AMELIA/GARETH | Does dim brys! |


© Hawlfraint BBC